Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector
Third Sector Additional Needs Alliance

# O AAA i ADY

## Trosolwg o'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'i gweithrediad



Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

Delivered by **SNAP Cymru**

**The Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018 imposes requirements on local authorities and governing bodies of maintained schools and education institutions ("FEIs") in respect of specific functions under the Act.**

Together these support the three overarching Welsh Government objectives of the 2018 Act which are:

- a unified legislative framework that supports all children of compulsory school age or below with ALN, and young people with ALN in in school or further education;
- an integrated, collaborative process of assessment, planning and monitoring which facilitates early, timely and effective interventions; and
- a fair transparent system for providing information and advice, and for resolving concerns and appeals.


**It places the learners' views, wishes and feelings at the heart of the process of planning the support required to enable them to learn effectively and achieve their full potential.**



# Amcanion Llywodraeth Cymru

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

**Cyflwyno system addysg gwbl gynhwysol i blant a phobl ifanc yng Nghymru, lle mae anghenion yn cael eu nodi'n gynnar ac yn cael sylw'n ddi-oed ac mae pob dysgwr yn cael cymorth i gyflawni eu potensial.**


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

The Additional Learning Needs Code for Wales 2021

WG21–23

**Nod y system newydd yw:**

- dod â'r holl systemau presennol ynghyd mewn un system sengl ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc ag ADY, beth bynnag fo lefel yr angen
- gwella cynllunio a chyflwyno cymorth i ddysgwyr, gan wneud anghenion, safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r dysgwyr yn ganolog i'r broses (canolbwyntio ar yr unigolyn)
- canolbwyntio ar bwysigrwydd nodi anghenion yn gynnar
- creu system glir a theg ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor, a datrys pryderon ac apeliadau



## Gobaith Llywodraeth Cymru yw y bydd y newidiadau hyn yn golygu y bydd plant, eu rhieni a phobl ifanc

- yn gweld bod eu hanghenion yn cael eu hadnabod yn gynnar a bod y cymorth cywir yn cael ei roi ar waith
- yn chwarae mwy o ran mewn penderfyniadau am eu bywydau a'r cymorth mae arnynt ei angen
- yn gallu cael hyd i wybodaeth yn fwy hwylus nag o'r blaen
- yn cael cymorth os ydynt yn anghytuno â phenderfyniadau
- yn gallu apelio yn erbyn penderfyniadau i'r tribiwnlys addysg

**There are a number of persons and bodies whose contribution will facilitate the development of IDPs and delivery of ALP to meet the needs of children and young people with ALN.**

## Non-maintained nursery education providers

Local authority funded non-maintained providers of nursery education have a role in supporting local authorities to identify ALN and in helping local authorities to fulfil their statutory obligations.

Where a child receives nursery education funded by a local authority at a non-maintained provider, the provider should, where requested, help the local authority in the exercise of its ALN functions in relation to that child, including in instances where a child receives nursery education from both maintained and non-maintained providers.



# Y System ADY

**Pennod 2 o'r Côd**
Adran 2 o'r Ddeddf



***'Mae gan berson anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddo anhawster dysgu neu anabledd (pa un a yw'r anhawster dysgu neu'r anabledd yn deillio o gyflwr meddygol ai peidio) sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol'***

Os daw i sylw ysgol neu awdurdod lleol y gall fod gan blentyn ADY, yna rhaid iddynt benderfynu a oes ar y plentyn angen cymorth ychwanegol gyda'i ddysgu.

Os oes gan eich plentyn ADY ac os penderfynwyd bod angen cymorth ychwanegol arnyn nhw a elwir yn ddarpariaeth ddysgu ychwanegol, (DDdY) bydd cynllun o'r enw Cynllun Datblygu Unigol (CDU) yn cael ei lunio.

Yr awdurdod lleol, yr ysgol neu'r coleg fydd yn ysgrifennu'r cynllun. Ond bydd pawb yn cael cyfrannu ato.

# Penderfynu a Nodi ADY

## Asesu cynnydd y dysgwr

- Mae plant yn gwneud cynnydd ar gyflymder gwahanol ac mae eu ffyrdd gorau o ddysgu yn amrywio
- Disgwylir i bob lleoliad addysg ddefnyddio addysgu gwahaniaethol neu ymyriadau eraill wedi'u targedu er mwyn sicrhau bod pob dysgwr yn gwneud gwell cynnydd
- Gall lleoliadau helpu'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc i lwyddo trwy wneud rhai newidiadau i'w ffordd o weithio neu drwy gynnig cymorth ychwanegol. Mae hyn yn rhan sylfaenol o addysgu arferol o ansawdd uchel. Mewn rhai lleoliadau, gelwir hyn yn ddarpariaeth gyffredinol neu'n gymorth i gau bylchau dysgu.





- Mae darpariaeth gyffredinol neu gymorth i gau bylchau dysgu ar gael i bob dysgwr
- Mae darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) yn ychwanegol neu'n wahanol i'r ddarpariaeth y byddai'r rhan fwyaf o blant eraill o'r un oed yn ei derbyn.
- Nid yw'r ffaith fod angen dull gwahaniaethol ar blentyn neu berson ifanc yn golygu bod ganddo ADY.
- Nid yw darpariaeth gyffredinol ac addysgu gwahaniaethol ynddynt eu hunain yn golygu darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY)

# Sut bydd rhieni'n gwybod a oes gan eu plentyn ADY?

- Mae'n bosib na fydd addysgu o ansawdd uchel, sy'n cynnwys gwahaniaethu, ac ymyriadau safonol, arferol neu addasiadau rhesymol yn ddigon i fodloni anghenion y dysgwr

- Efallai y bydd camau gweithredu ychwanegol neu wahanol ar ffurf darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) yn angenrheidiol er mwyn sicrhau cynnydd

- Mae darpariaeth ddysgu ychwanegol yn cwmpasu darpariaeth addysg neu hyfforddiant ychwanegol neu wahanol, y tu hwnt i'r hyn a gynigir yn gyffredinol i blant neu bobl ifanc o'r un oedran mewn ysgolion neu golegau prif ffrwd yng Nghymru.

Pa gwestiynau dylai rhieni eu gofyn

- Disgrifiwch gynnydd fy mhlentyn, ydy'r cynnydd yn sylweddol arafach na chynnydd ei gyfoedion?
- Ydy cynnydd fy mhlentyn wedi arafu, stopio neu atchwelyd?
- Ydy'r bwlch cyrhaeddiad rhwng fy mhlentyn a'i gyfoedion yn parhau neu'n ehangu er gwaethaf y cymorth a ddarperir?
- Ydy'r cymorth presennol hefyd yn cael ei gynnig i blant eraill fel rhan o ddull addysgu gwahaniaethol? Neu fel rhan o'r ddarpariaeth gyffredinol?
- Ydy fy mhlentyn yn cael cymorth sylweddol fwy na'i gyfoedion, neu ydy'r cymorth yn wahanol i'r hyn a gynigir i ddisgyblion eraill?



# Enghraifft...

Cafodd Cerys ddiagnosis anhwylder ar y sbectrwm awtistig (ASD) yn ddiweddar
Mae CAMHS wedi ysgrifennu llythyr at y rhiant a'r ysgol gydag argymhellion i'w gweithredu gan yr ysgol. Ar hyn o bryd, mae Cerys yn cael cymorth gan gynorthwy-ydd addysgu am 20 munud yn y bore ac 20 munud yn y prynhawn. Mae gwaith academaidd yn achosi trafferth iddi.

OES - mae DDdY ar waith

Mae gan Llinos ddiagnosis Parlys yr Ymennydd, mae hi'n 12 oed ac yn ddisgybl mewn ysgol uwchradd brif ffrwd. Mae hi'n gallu symud o gwmpas yr ysgol yn hwylus yn ei chadair olwyn drydan. Mae hi'n llwyddo yn academaidd

Dim ADY/Dim DDdY

Mae'n anodd iawn cael Jacob i fynd i'r ysgol ar hyn o bryd, mae ganddo ddiagnosis ADHD ac mae CAMHS yn gweithio gydag ef hefyd. Dywed yr ysgol ei fod yn bwrw ymlaen â'i waith yn yr ysgol, ond mae ei ymddygiad yn heriol iawn gartref

DIM ADY/DIM DDdY



# Cynnwys y CDU

Bydd y cynllun (CDU) yn dweud beth sydd ei angen ar eich plentyn er mwyn gallu dysgu a beth fydd yn cael ei wneud i gefnogi eich plentyn yn briodol yn yr ysgol neu'r coleg.

Mae'r cynllun datblygu unigol yn ddogfen gyfreithiol, felly rhaid i bawb sy'n ymwneud â'r plentyn ddilyn yr hyn mae'n ei ddweud.

Mae'r Côd ADY yn disgrifio'r wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys mewn CDY. Mae hyn yn cwmpasu:

- Gwybodaeth fywgraffiadol a manylion cyswllt
- Safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn, ei rieni neu'r person ifanc (PROFFIL UN DUDALEN)
- Disgrifiad clir a chynhwysfawr o ADY y plentyn neu'r person ifanc



# Cynnwys y CDU

Disgrifiad o'r DDdY a gaiff ei darparu, gyda chynifer o fanylion priodol â phosib, gan gynnwys :

- pwy sy'n gyfrifol am ddarparu
- disgrifiad o unrhyw DDdY a ddarperir gan y GIG, lle bydd hynny'n berthnasol
- manylion am unrhyw leoliad, trefniadau pontio neu drafnidiaeth, lle bydd hynny'n berthnasol
- cofnod o drafodaethau, cyngor a thystiolaeth

Caiff y cynllun ei wirio:

- bob 12 mis neu
- mewn ymateb i gais neu
- pan fydd sefyllfa eich plentyn yn newid



# O AAA i ADY – Gweithredu

Y SYSTEM AAA

- CAUiau (Cynlluniau Addysg Unigol)
- Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy
- Datganiadau

GWEITHREDU 2021- 2024

CDUiau (Cynlluniau Datblygu Unigol 0-25



# O AAA i ADY - Gweithredu

## Pryd mae'r newidiadau'n digwydd?

O 1 Medi 2021, mae plant y nodwyd am y tro cyntaf fod anghenion dysgu ychwanegol ganddynt (h.y. plant nad oeddent eisoes wedi cael eu nodi fel rhai ag anghenion addysgol arbennig (AAA), neu blant nad oeddent yn aros am asesiad AAA neu'n mynd trwy asesiad AAA), yn ymuno â'r system ADY newydd.

O 1 Ionawr 2022, dechreuwyd symud plant mewn ysgolion a gynhelir (awdurdod lleol) (gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion) y nodwyd eisoes bod ganddynt anghenion addysgol arbennig trwy gamau gweithredu gan yr ysgol neu weithredu gan yr ysgol a mwy, i'r system ADY.



| | |
|---|---|
| **Tymor y gwanwyn a thymor yr haf blwyddyn ysgol 2021 i 2022** | **Meithrin (M1, M2), Blwyddyn 1, Blwyddyn 3, Blwyddyn 5, Blwyddyn 7 a Blwyddyn 10** |
| **Blwyddyn ysgol 2022 - 2023** | **Meithrin, Derbyn, Blwyddyn 2, Blwyddyn 4, Blwyddyn 6, Blwyddyn 8, Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11** |
| **Blwyddyn ysgol 2023 -2024** | **Meithrin, Blwyddyn 2, Blwyddyn 4, Blwyddyn 6, Blwyddyn 8 a Blwyddyn 10** |

Yn ystod y flwyddyn ysgol bresennol 2022-2023, bydd rhagor o blant yn symud. Plant Meithrin, Derbyn, Blwyddyn 2, Blwyddyn 4, Blwyddyn 6, Blwyddyn 8, Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 fydd y rhain.

Bydd plant yn y grŵp yma sydd heb symud o'r blaen yn symud ym mlwyddyn ysgol 2023-2024. Plant Meithrin, Blwyddyn 2, Blwyddyn 4, Blwyddyn 6, Blwyddyn 8 a Blwyddyn 10 fydd y rhain.

O 1 Medi 2022, dechreuodd grwpiau eraill o blant symud o'r system AAA i'r system ADY.

**Pwy yw'r rhain?**

- Plant ag anghenion addysgol arbennig nad ydynt yn mynd i ysgolion meithrin, ysgolion neu Unedau Cyfeirio Disgyblion awdurdod lleol.
- Plant â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Ym mlwyddyn ysgol 2022-2023, roedd hyn yn cynnwys plant sy'n iau na'r oedran ysgol statudol neu ddisgyblion Derbyn, Blwyddyn 6, Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 . Ym mlwyddyn ysgol 2023-2024, disgyblion Blwyddyn 2, Blwyddyn 3, Blwyddyn 4, Blwyddyn 5, Blwyddyn 6, Blwyddyn 8, Blwyddyn 9 a Blwyddyn 10 fydd y rhain.



# Symud i'r system ADY

Pan fydd plant yn symud i'r system ADY, ysgol feithrin, ysgol neu uned cyfeirio disgyblion y plentyn, neu'r awdurdod lleol mewn rhai achosion, fydd yn dweud sut a phryd y bydd hynny'n digwydd.

Bydd y rhan fwyaf o blant yn symud o'r system AAA i'r system ADY pan fydd eu hysgol feithrin, eu hysgol neu eu huned cyfeirio disgyblion awdurdod lleol neu'r awdurdod lleol ei hun yn rhoi hysbysiad CDU iddynt.

Mae hysbysiad CDU yn golygu y penderfynwyd bod gan blentyn ADY ac y bydd CDU yn cael ei lunio.

Bydd hysbysiad dim CDU yn golygu y penderfynwyd nad oes gan blentyn ADY.

Rhoddir hysbysiad CDU pan fydd penderfyniad wedi'i wneud fod gan blentyn ADY, a bydd gan yr ysgol 35 diwrnod ysgol o ddyddiad yr hysbysiad i baratoi CDU.

Bydd gan awdurdod lleol 12 wythnos o ddyddiad hysbysiad CDU i baratoi CDU.



# Gofyn am gael symud i'r system newydd

Caiff plant yn y grŵp cyntaf sy'n symud o'r system AAA i'r system ADY a'u rhieni ofyn am gael symud i'r system ADY ar unrhyw adeg ar ôl 1 Ionawr 2022.

Gall plant a'u rhieni wneud hynny drwy ofyn i'r ysgol feithrin, yr ysgol neu'r uned cyfeirio disgyblion awdurdod lleol neu'r awdurdod lleol ei hun eu symud draw i'r system ADY trwy wneud hysbysiad.

Gallant wneud hyn yn ysgrifenedig (mewn neges neu e-bost) neu ar lafar (naill ai wyneb yn wyneb neu drwy alwad ffôn).

Rhaid i'r ysgol feithrin, yr ysgol neu'r uned cyfeirio disgyblion awdurdod lleol gyhoeddi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU cyn pen 15 diwrnod ysgol.

Rhaid i'r awdurdod lleol gyhoeddi hysbysiad CDU neu hysbysiad dim CDU cyn pen 15 diwrnod gwaith.

Weithiau, bydd awdurdod lleol yn cyhoeddi hysbysiad ADY er mwyn symud plentyn i'r system ADY. Rhaid i'r awdurdod lleol wneud hyn o fewn 10 diwrnod gwaith.

(Nid yw hysbysiad ADY yn benderfyniad ynghylch a oes gan blentyn ADY neu beidio. Yn syml, mae'n symud y plentyn i'r system newydd, fel bod y Côd a'r Ddeddfwriaeth ADY yn berthnasol o ddyddiad yr hysbysiad ymlaen.)



# Pryd fydd pobl ifanc ag ADY yn symud i'r system CDU?

Byddgweithredu’r system ADY argyferpoblifancyncynnwys system ‘sianelu’.

Mae system ‘sianelu’ yngolygu y bydd plant sy’ncaeleusymudi’r system ADY ganysgol neu awdurdodlleolynystod y cyfnodgweithredugraddol o dairblynedd (rhwng mis Medi 2021 a mis Awst 2024) yncaeleu ‘sianelu’ iaddysgbellachgydachynllundatblyguunigol (CDU) eisoesynei le (pan foangen un arnynnhw).

O fis Medi 2022 ymlaen, bydd pobl ifanc ag AAA ac sydd ym Mlwyddyn 12 (neu uwch) yn aros ar y system AAA bresennol tan 1 Medi 2025.

O fis Medi 2022 ymlaen, i bobl ifanc sydd ym Mlwyddyn 12 (neu uwch) ac sydd newydd gael eu nodi fel rhai ag AAA, bydd y system AAA neu'r system AAD yn gymwys tan 1 Medi 2025.

Bydd unrhyw berson ifanc nad yw eto ar y system ADY ar ddiwedd blwyddyn ysgol 2024 i 2025 yn symud i'r system ADY bryd hynny.

Nes y bydd y Ddeddf ADY yn gymwys i berson ifanc, bydd Deddf Addysg 1996 a Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 yn parhau i fod yn gymwys, a bydd y person ifanc yn parhau i elwa ar y gefnogaeth sydd ar gael drwy'r systemau AAA ac AAD presennol fel y bo'n briodol.

# Darpariaeth ôl-16 arbenigol



- Yn y rhan fwyaf o achosion, gall anghenion pobl ifanc ag ADY gael eu diwallu gan eu coleg addysg bellach lleol.

- Mewn achosion prin, lle nad yw’r ddarpariaeth prif ffrwd leol yn gallu diwallu anghenion cymhleth, mae Llywodraeth Cymru'n sicrhau lleoliadau i bobl ifanc mewn sefydliadau addysg bellach arbenigol annibynnol.

- Fel rhan o’r Ddeddf ADY, bydd y cyfrifoldeb hwn yn trosglwyddo i awdurdodau lleol.

- Bydd y trosglwyddiad yn digwydd yn raddol gydag awdurdodau lleol yn dod yn gyfrifol am y rhai sydd wedi eu symud i’r Ddeddf ADY.

- Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i sicrhau ac ariannu lleoliadau ôl-16 arbenigol ar gyfer y bobl ifanc hynny sydd heb eu symud i'r system ADY eto.



# Transition to Further Education

For learners **in year 9, 10 or 11**, the school or local authority undertaking a review of their IDP which is to consider transition from compulsory education **may** wish to involve a careers adviser in the review to discuss career options.



# When a child with an IDP is approaching the end of compulsory schooling

A maintained school or local authority that maintains an IDP for the child should explain to the child what may happen to their IDP when the child becomes a young person.

This includes who will maintain it (in cases where the IDP might transfer, e.g. from a school to an FEI at which the child is expecting to enrol) and explaining the rights of young people to consent or object to ALN decisions and IDPs.


The maintained school or local authority should seek the child's view on consenting to the IDP continuing to be maintained once the child becomes a young person.

It could be useful to do this during a review in year 11 (or earlier) and could form part of transition planning.

Where the child wishes to consent to the IDP being maintained, the child should be given an appropriate opportunity to confirm that decision after the child has become a young person.

Where the child objects or does not indicate consent, then the maintained school or local authority will need to check the matter further when the child becomes a young person.

Where a young person lacks capacity, the person's representative can consent and exercise other rights on the young person's behalf.



## Circumstances when an FEI has not been involved in the transition process BEFORE a young person enrols.

- An FEI should provide young people at the time they are enrolling as students at the FEI, with an opportunity to raise any ALN they may have and state whether they have or have had an IDP.
- This provides an opportunity for discussion between the young person and the FEI about their needs and the support that may be required and to discuss any issues about the young person's consent.
- If the young person does not have an IDP, the FEI may be under a duty to decide upon ALN. **Section 11 of the Act - Chapter 16 of the Code**
- If the young person has an IDP, it is important that the FEI knows this: the FEI may be required to maintain it. **Section 35 (4) (6) of the Act - Chapter 28 of the Code**
- If the IDP is maintained by a local authority, the FEI is under a duty to help the local authority secure the ALP. **Section 47(4) – (5) of the Act - Chapter 16 of the Code**
- If the FEI is required to maintain the IDP, it is an opportunity for the FEI to consider whether it requires a review.




# Start of academic year transfers from a school to an FEI

Where a young person becomes enrolled as a student at an FEI before the end of September in an academic year , the FEI **MUST** maintain the young person's IDP,

(For these transfers, "academic year" means any period from 1 August to 31 July):

**Section 35(5) of the Act. Section 35(4) and (6) of the Act (maintain) IF:**

- the young person was a registered pupil at a maintained school during the previous academic year, and

- that school was maintaining an IDP for the young person on the last day of education or training provided for them at the school.

# Transfers from a local authority to an FEI

Where a local authority maintains an IDP for a young person who is or becomes an enrolled student at an FEI, the local authority may request transfer of responsibility for maintaining an IDP - that the FEI becomes responsible for maintaining the IDP.
**Section 36(1) and (2) of the Act**

Such requests should only be made where the local authority believes that it would be reasonable for the FEI to secure the ALP set out in the IDP and the local authority MUST have regard to the views, wishes and feelings of the young person.

The request MUST be made in writing and be accompanied by a copy of the IDP unless the FEI already has a copy.

In most cases, the FEI will be familiar with the young person's IDP, even if the young person has only just enrolled, as it is likely to have been invited to be involved in the young person's IDP review during their final year of compulsory education.



# What if an FEI fails to agree to a request to maintain an IDP?

If the FEI fails to agree to the request before the end of the period of **20 term time days** (that period starts with the day after the FEI receives the request), the local authority may refer the matter to the Welsh Ministers, within the following four weeks.


**Section 36(3) of the Act and regulation 14 of the Additional Learning Needs (Wales) Regulations 2021.**

- The local authority MUST make the referral in writing and at the same time also give the Welsh Ministers a copy of the sections of the IDP containing the description of the ALN and the description of the ALP, together with a copy of any other information in the IDP which the local authority considers is necessary to determine the matter.

**Regulation 14 of the Additional Learning Needs (Wales) Regulations 2021.**

- Where a referral has been made to them by a local authority, the Welsh Ministers MUST determine whether the FEI should maintain the IDP.

**Section 36(4) of the Act.**



# Beth os yw plentyn, person ifanc neu riant/ofalwr yn anghytuno â rhywbeth

Mae safbwyntiau plant, pobl ifanc a theuluoedd yn bwysig iawn.

Os bydd plant, pobl ifanc neu eu rhieni/gofalwyr yn anfodlon ar y penderfyniad a wnaed neu'n anghytuno ag ef, bydd modd iddynt ddweud hynny.

Gallai trafod materion helpu i ddatrys unrhyw bryderon neu wahaniaeth barn.

Os yw'r plentyn/person ifanc yn mynychu ysgol feithrin, ysgol, uned cyfeirio disgyblion awdurdod lleol neu sefydliad addysg bellach, byddai'n syniad da iddynt drafod eu pryderon gyda'r Cydlynydd ADY. Os na allant ddod i gytundeb â lleoliad addysg neu sefydliad Addysg Bellach eu plentyn, gallant ofyn i'r awdurdod lleol am gymorth.



# Beth os bydd plant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr yn anghytuno â rhywbeth

Os nad yw'r plentyn yn mynychu ysgol feithrin, ysgol neu uned cyfeirio disgyblion awdurdod lleol, gall rhieni/gofalwyr gysylltu â'r awdurdod lleol i ofyn am gymorth. Bydd pobl ganddynt sy'n cefnogi teuluoedd i gyrraedd datrysiad sy'n bodloni pawb.

Gall teuluoedd hefyd gysylltu â **SNAP Cymru** i gael gwybodaeth a chefnogaeth ar unrhyw adeg.

Rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru wneud trefniadau a darparu mynediad i wasanaethau datrys anghydfodau (GDA) annibynnol er mwyn helpu i ddatrys anghydfodau. Bydd y gwasanaeth yn gwneud hyn trwy helpu pawb sy'n ymwneud â'r mater i drafod yr anghydfod a gweithio tuag at ei ddatrys.





# Nodau datrys anghydfodau yw

- helpu i ddod â'r partïon perthnasol ynghyd.
- cefnogi anghenion y plentyn a'r person ifanc .
- helpu i ddatrys anghydfodau yn gynnar trwy drafod a dod i gytundeb
- trafod yr ystod lawn o ddewisiadau

Nid yw defnyddio gwasanaeth datrys anghydfodau yn atal plentyn, ei rieni neu berson ifanc rhag apelio.

Hyd yn oed os bydd apêl ar waith, gall plant, eu rhieni a phobl ifanc barhau i siarad â'r awdurdod lleol er mwyn ceisio dod i gytundeb.

# Hawliau i apelio i'r tribiwnlys

**Mae gan blant, eu rhieni a phobl ifanc yr hawl i apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru.**

Ni ellir apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru ynghylch penderfyniadau ysgolion meithrin, ysgolion neu unedau cyfeirio disgyblion. Os bydd rhieni/gofalwyr yn anfodlon ar benderfyniadau ysgol feithrin, ysgol neu uned cyfeirio disgyblion eu plentyn, bydd angen iddynt siarad yn gyntaf â'r awdurdod lleol a gofyn iddyn nhw ailystyried y penderfyniad.
Os bydd plant a/neu eu rhieni/gofalwyr yn dal yn anfodlon ar benderfyniad yr awdurdod lleol, gallant apelio i'r Tribiwnlys Addysg.





# Gellir apelio ynghylch y canlynol :

- penderfyniad awdurdod lleol neu goleg ynghylch a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY neu beidio
- penderfyniad awdurdod lleol nad oes angen gwneud CDU ar gyfer person ifanc
- sut disgrifir ADY y plentyn neu'r person ifanc yn eu CDU
- y DDdY a gafodd ei chynnwys mewn CDU
- y DDdY na chafodd ei chynnwys mewn CDU
- penderfyniad ynghylch a ddylai'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) fod yn Gymraeg

- peidio â chynnwys ysgol feithrin, ysgol, uned cyfeirio disgyblion neu goleg penodol mewn CDU
- peidio â chynnwys darpariaeth arall angenrheidiol - megis peidio â chynnwys costau bwyd a llety er mwyn mynychu ysgol feithrin, ysgol, uned cyfeirio disgyblion neu goleg penodol
- penderfyniad awdurdod lleol i beidio â newid CDU y mae ysgol feithrin, ysgol neu uned cyfeirio disgyblion yn gyfrifol amdano
- awdurdod lleol neu goleg yn gwrthod penderfynu a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY oherwydd eu bod wedi penderfynu hynny o'r blaen ac maen nhw o'r farn nad oes dim wedi newid
- penderfyniad i derfynu CDU



# Cwestiynau?

Ein gobaith yw trafod pob cwestiwn heddiw ond os na ellir gwneud hynny - anfonwch unrhyw gwestiynau pellach i fromsentoaln@snapcymru.org

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

# 4 Amcan Llywodraeth Cymru

- Bod Plant a Phobl Ifanc yn cael y cymorth y mae arnyn nhw ei angen yn gynharach
- Bod plant a phobl ifanc yn cyfrannu mwy at benderfyniadau am eu bywydau a'r cymorth y mae arnynt ei angen
- Gallu cael hyd i wybodaeth yn fwy hwylus nag o'r blaen
- Derbyn cymorth os anghytunir â phenderfyniadau

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

# RHAID i Awdurdodau Lleol ddarparu ar gyfer:



- Gwybodaeth a Chyngor Diduedd i deuluoedd a phobl ifanc
- Osgoi a Datrys Anghydfodau
- Gwasanaethau Eiriolaeth Annibynnol



# Arrangements for providing advice and information

A local authority may choose to provide advice and information about ALN and the ALN system itself.

Alternatively, the local authority could work with external service providers, including the third sector, to provide information and advice about ALN and the ALN system.

However local authorities decide to provide the information and advice, in making their arrangements to do so, they must have regard to the principle that the information and advice about ALN and the ALN system must be provided in an impartial manner.

It is important that it is provided impartially because the purpose of providing it is to facilitate children, their parents and young people understanding the ALN system and exercising their rights under it, including to challenge decisions of, amongst others, the local authority.

**Details of Local Authorities arrangements can be found on individual Local Authority websites, including each Local Authorities Individual Advocacy and Disagreement Resolution arrangements.**



**Snap Cymru provides the Information and Advice Service to 20 Local Authorities in Wales.**

Swansea and Pembrokeshire Local Authorities provide this service themselves.

**Disagreement Resolution Service:**


Snap Cymru provides this service to 20 Local Authorities in Wales.

Swansea and Pembrokeshire Local Authorities provide this service themselves, but where issues cannot be resolved, both these Local Authorities then refer to Snap Cymru.

# Beth gall SNAP Cymru ei wneud?

- Trafod pryderon gyda theuluoedd
- Rhoi cymorth i ddeall 'y system'
- Cyflwyno teuluoedd i'n gwasanaeth Gwaith Achosion Datrys Anghydfodau Arbenigol i gael cymorth mwy arbenigol
- Cefnogi teuluoedd mewn cyfarfodydd â gweithwyr proffesiynol
- Hwyluso cyfryngu ffurfiol
- Darparu eiriolaeth annibynnol ar gyfer plant a phobl ifanc
- Derbyn marc ansawdd arbenigol yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol am ddarparu cyngor cyfreithiol mewn Addysg






# Rôl SNAP Cymru o ran Datrys Anghydfod

- **Ni yw'r prif ddarparwr gwasanaethau datrys anghydfodau ADY yng Nghymru**
- Cymorth ymarferol diduedd, **AM DDIM** i rieni/ofalwyr, plant a phobl ifanc
- Gweithio gyda gweithwyr proffesiynol a rhieni i gefnogi eu trafodaethau
- Deall gwirioneddau, adnoddau a chyfrifoldebau
- Pontio i asiantaethau a gwasanaethau eraill
- Sicrhau sylw i safbwyntiau rhieni mewn gwaith cynllunio a datblygu lleol a chenedlaethol

SNAP cymru

# Sut mae SNAP Cymru yn gweithio?

1. Gwybodaeth a Chyngor – Canolfan Gymorth

2. Osgoi anghydfod (Gwaith Achosion ADY Arbenigol )

3. Datrys Anghydfod (Gwaith Achosion ADY Arbenigol)

4. Datrys Anghydfod (Cyfryngu Ffurfiol yn sgîl Gwaith Achosion ADY)

# Derbyn y newyddion diweddaraf gan SNAP Cymru

Mae gan wefan SNAP Cymru lawer o wybodaeth ac adnoddau defnyddiol y gallwch gael mynediad atynt a'u rhannu ar unrhyw adeg:

snapcymru.org

Dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol i gael y newyddion diweddaraf am ddeddfwriaeth a digwyddiadau:

www.facebook.com/SNAPCymru

@SNAPCymru



# TSANA

## Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector

## Third Sector Additional Needs Alliance

TSANA is a coalition of third sector organisations working with, supporting and representing a broad range of children and young people with additional learning needs.

This Alliance is facilitated by Children in Wales

To learn more about what we do and who our members are, visit our web pages

Clymblaid o gyrff trydydd sector yw TSANA, sy'n gweithio gydag ystod eang o blant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn eu cefnogi ac yn eu cynrychioli.

Caiff y Gynghrair hon ei hwyluso gan Plant yng Nghymru

To learn more about what we do and who our members are, visit our web pages